

Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych



Rhifyn naw – Haf 2022

Diweddariad ar y Ddeddf Rhentu Cartrefi

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bod yn gwneud newidiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae hyn yn effeithio ar ein cytundebau tenantiaeth o 15 Gorffennaf 2022. Rydym wedi llunio'r canllaw defnyddiol hwn i helpu i egluro beth mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i'n tenantiaid, chi!

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (y Ddeddf) – beth ydy o?

O 15 Gorffennaf 2022, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r Ddeddf ar waith. Bydd hyn yn newid y ffordd rydym yn rhentu ein cartrefi, gan wella'r profiad rhentu i chi.

Pam ei fod yn newid?

Mae'n rhaid i ni roi cytundeb ysgrifenedig i chi, yn nodi eich holl hawliau a chyfrifoldebau.

Beth sy'n newid?

- Byddwch chi'n clywed ac yn gweld terminoleg newydd yn cael ei defnyddio, e.e.
 - Caiff cytundeb tenantiaeth ei alw'n Contract Meddiannaeth.
 - Cewch chi eich galw'n Ddeiliaid Contract ac nid tenantiaid.
- Bydd cytundebau tenantiaeth yn cael eu disodli gan Contractau Meddiannaeth dros y 6 mis nesaf.

- Gellir ychwanegu a dileu deiliaid contract heb fod angen terfynu'r contract.
- Bydd gennych fwy o hawliau olyniaeth i drosglwyddo eich cartref.



Gwobrau Tenantiaid

Rydym mor gyffrous i gyhoeddi bod ein Gwobrau Tenantiaid yn mynd yn eu blaen eleni!! Trowch i dudalen 8 am fwy o fanylion.

Taliadau Gwasanaeth

Canllaw defnyddiol am beth yw tâl gwasanaeth, a sut mae'n gweithio. Mae tudalen 14 yn egluro'r cyfan.

Y Diweddaraaf ar Gartrefi Newydd

Mae ein rhaglen gwella ynni yn dod yn ei blaen yn arw! I gael gwybod mwy, ewch i dudalen 9!

Yn y rhifyn hwn

Tai Sir Ddinbych:

Neges gan Geoff	Tudalen 3
Neges gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)	Tudalen 4
Canlyniadau Arolwg STAR 2021 a beth nesaf	Tudalen 4–5
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)	Tudalen 6–7

Cymuned a Phobl:

Dod i'n hadnabod ni	Tudalen 7, 15
Gwobrau'r Tenantiaid	Tudalen 8
Proffil Sir Ddinbych yn Gweithio	Tudalen 12
Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddatblygu Cymunedol	Tudalen 13
Costau byw	Tudalen 16

Buddsoddi a Gwelliannau:

Gwaith a drefnwyd a gwelliannau ynni	Tudalen 9
Y Diweddaraf ar Ddiogelwch Tân	Tudalen 10
Taliadau Gwasanaeth - Cwestiynau Cyffredin	Tudalen 10
Y diweddaraf ar Gynnal a Chadw'r Tir	Tudalen 11
Gwelliannau Amgylcheddol	Tudalen 14

Mae'r cylchlythyr hwn yn 100% ailgylchadwy. Pan fyddwch chi wedi gorffen mwynhau ei ddarllen.



Bwrdd Newyddion

I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:
Dydd Llun – dydd Gwener 9:00am – 5:00pm 01824 706000

Argyfwng Tu Allan i Oriau 0300 123 3069

Galw Gofal (Llinell Ofal) 0300 123 6688

Un Pwynt Mynediad (SPOA) ar gyfer atgyfeiriadau cefnogaeth 0300 456 1000

Argyfwng Nwy 0800 111 999

Argyfwng Trydan 080031 63 105

Galw Iechyd Cymru
111

Rhybuddion Ilifogydd
0345 988 1188

Type talk
0345 602 6340



Y diweddaraf gan Geoff Davies

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen. Fel yr arfer, gobeithio y bydd o ddiddordeb i chi a gadewch i ni wybod os hoffech chi i ni gynnwys unrhyw beth mewn newyddleni yn y dyfodol.

Mae yna lawer i ddarllen amdano yn y rhifyn hwn. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am ein partneriaeth gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych gan ein bod yn ymwybodol o broblemau costau byw sy'n effeithio ar gyllid pob cartref. Mae gan Gyngor ar Bopeth ymgynghorwyr profiadol sydd yn gallu cefnogi unrhyw un, waeth beth yw eich incwm neu amgylchiadau gartref.

Rydym ni hefyd wedi cynnwys adborth gennych chi yn dilyn ein harolwg STAR diweddaraf. Cawsom ein nifer fwyaf o ymatebion erioed, felly diolch i bawb am dreulio'r amser yn ymateb a gallwn eich sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu a gwella'r hyn rydym ni'n ei wneud.

Gan fod dyddiau cyfnodau clo Covid wedi dod i ben, rydym eisiau gweithio'n agosach gyda'n cymunedau. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi ein grwpiau tenantiaid presennol a'r grŵp cynrychioliadol, Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, ond rydym hefyd eisiau dod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys tenantiaid. Yn fuan fe fyddwn ni'n chwilio am denantiaid i gymryd rhan mewn sesiwn ar-lein gan edrych sut y gallwn ni ddatblygu ein gwasanaeth atgyweiriadau.

Tenantiaeth Newydd

Yn y newyddlen hon, fe welwch chi wybodaeth am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 newydd. Mae'n newid enfawr i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru ynglyn â sut y caiff cartrefi eu rhentu a'u rheoli. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am sut y bydd hyn yn effeithio arnoch chi. Rydym yn disgwyl gallu trosi'r cytundeb tenantiaeth presennol rydym ni'n ei ddefnyddio i'r "Contract Meddiannaeth Diogel" newydd fel rhan o'r newid yn y ddeddfwriaeth, felly ni fydd yna delerau ychwanegol yn eich tenantiaeth heblaw'r hyn sydd yn y ddeddfwriaeth.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth a byddwn yn anfon y contract newydd (tenantiaeth) atoch chi gyda rhagor o wybodaeth yn nes ymlaen yn 2022. Gallaf eich sicrhau na fyddwn yn tynnu unrhyw hawliau neu ddiogelwch sydd gennych chi ar hyn o bryd.

Safonau Ansawdd Newydd

Rydym ni hefyd yn disgwyl safonau ansawdd newydd gan Lywodraeth Cymru. Dyma sut rydym ni'n sicrhau bod ein cartrefi yn gartrefi o ansawdd i bobl fyw ynddynt ac mae'n rhoi syniad i ni sut i gyflawni rhaglenni ar gyfer toeau, ceginau ac ystafelloedd ymolchi er enghraifft. Ei enw yw Safon Ansawdd Tai Cymru ac rydym ni'n disgwyl safonau ychwanegol y dylem eu cynnwys yn y dyfodol. Mae gwybodaeth am ein rhaglenni presennol wedi'u cynnwys yn y newyddlen.

Contractwr Cynnal Tiroedd Newydd

Rydym wedi ail-dendro ein contract ar gyfer cynnal tiroedd yn ddiweddar. Dyma'r gwasanaeth sydd yn sicrhau ein bod yn cynnal mannau agored a gerddi cymunedol yn lân, yn wyrdd ac yn dactylus.

O ganlyniad, mae gennym ni gontractwr newydd, ac rydym yn falch o fod wedi penodi Greenfingers. Maent yn gontractwyr cynnal tiroedd sydd â phrofiad gwych ar draws y gogledd-orllewin/DU. Mae cychwyn contract newydd bob amser yn her oherwydd yr angen i recriwtio staff newydd, dod i adnabod yr ardal a rheoli heriau'r tymor tyfu cynnar yn sgîl tywydd cyfnewidiol iawn.

Pan fyddwn ni wedi cael ein traed danom, rydym ni'n gwybod y bydd Greenfingers yn bartner gwych ac yn gweithio'n agos gyda ni a'n cymunedau i gynnal ein mannau agored yn wych.

Fel bob amser, os bydd gennych chi ymholiadau neu angen unrhyw gefnogaeth, rhwch wybod i ni. Er ein bod yn gobeithio darparu gwasanaethau gwych rydym ni'n ymwybodol y gall pethau fynd o'i le, felly defnyddiwch ein gweithdrefn gwyno. Rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth o bob cwyn i sicrhau y gallwn ni wella.



Neges gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)

Mae DTARF wedi bod yn cynrychioli tenantiaid Sir Ddinbych ers dros ugain mlynedd.


Rydym ni bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd a chymdeithasau tenantiaid newydd i ymuno â ni.

Rydym ni'n cynnal cyfarfodydd misol mewn lleoliadau cymunedol amrywiol ar draws Sir Ddinbych. Os hoffech chi neu eich cymdeithas ymuno â ni, fe fyddem ni'n cynnal o leiaf un cyfarfod y flwyddyn yn eich cymuned.

Byddwn yn talu costau teithio i chi yn ôl ac ymlaen o'r cyfarfodydd, felly os hoffai unrhyw un gysylltu, gallwch e-bostio dtarf1@outlook.com. Rydym ni'n croesawu wynebau newydd. Cofion gorau, John, Cadeirydd DTARF



Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR)



Yn gyntaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein harolwg diweddar. Cawsom dros 755 (23%) ymateb, 709 (94%) ohonynt ar-lein, sy'n newyddion gwych!

Mae eich prif flaenoriaethau'n cynnwys:

- Cael cartref o ansawdd da.
- Gwasanaeth atgyweirio amserol ac o ansawdd da.
- Cyfathrebu da rhwng Tai Sir Ddinbych a thenantiaid.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran, gan fod eich barn a'ch safbwyntiau yn bywsig iawn.

Beth nesaf?

Ar sail y canlyniadau o Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Sefydlu Fforwm Atgyweiriadau gyda thenantiaid i edrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu ein gwasanaethau atgyweiriadau a chynnal a chadw.
- Mynd allan i'n cymunedau yn fwy aml a chynnal digwyddiadau a sioeau teithiol yn ein cymunedau.
- Ail-sefydlu cefnogwyr "Ceidwaid Gwyrdd" i helpu i fonitro'r gwasanaeth cynnal tiroedd a sicrhau gwerth am arian am daliadau gwasanaeth.



Gwasanaeth cyffredinol

87%

Dyweddodd 87% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir.



Ansawdd y cartref

84%

Dyweddodd 84% o denantiaid eu bod yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol eu cartref.



Cymdogaeth

85%

Dyweddodd 85% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw.



Gwaith trwsio a chynnal

77%

Dyweddodd 77% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth trwsio a chynnal.



Rhent

85%

Dyweddodd 85% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu rhent yn cynnig gwerth am arian.



Tâl gwasanaeth

29%

Dyweddodd 29% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian.



Gwrando a gweithredu

64%

Dyweddodd 64% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnyntm.



Diogel

87%

Dyweddodd 87% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod yn darparu cartref sy'n ddiogel.



Hawdd delio â ni

82%

Dyweddodd 82% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ei fod yn hawdd delio â ni.



Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

62%

Dyweddodd 62% o denantiaid yn dweud eu bod yn fodlon â'r ffordd rydym yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Dweud eich Dweud

66%

Dyweddodd 66% o denantiaid eu bod yn fodlon bod ganddynt lais yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli.



Penderfyniadau

59%

Dyweddodd 59% o denantiaid eu bod yn fodlon â chyfluoedd i cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.



Ymddiried

79%

Dyweddodd 79% o denantiaid eu bod yn ymddiried yn Tai Sir Ddinbych.

Newidiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bod yn gwneud newidiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae hyn yn effeithio ar ein cytundebau tenantiaeth o 15 Gorffennaf 2022. Rydym wedi llunio'r canllaw defnyddiol hwn i helpu i egluro beth mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i'n tenantiaid.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (y Ddeddf) – beth ydyw a beth mae'n ei olygu?

- O 15 Gorffennaf 2022, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r Ddeddf ar waith. Bydd hyn yn newid y ffordd rydym yn rhentu ein cartrefi, gan wella'r profiad rhentu i chi.
- Bydd y ddeddf newydd yn gwella'r ffordd yr ydym yn rhentu, yn rheoli, a sut yr ydych yn byw mewn cartrefi rhent yng Nghymru.

Beth mae'r newidiadau hyn yn eu golygu i chi?

- Ni fydd rhaid i chi wneud unrhyw beth. Byddwn yn rhoi contractau / cytundebau newydd i chi yn y 6 mis nesaf.
- O dan y gyfraith newydd, cewch eich adnabod fel 'deiliaid contract'. Byddwn yn disodli cytundebau tenantiaeth gyda 'contractau meddiannaeth'.
- Yn gyffredinol bydd y ddeddfwriaeth newydd yn cymryd lle amodau yn y ddeddfwriaeth gyfredol gyda rhai hawliau ychwanegol ar gyfer tenantiaid.
- Dyma fydd hyn yn golygu i chi, y deiliaid contract:
 - Cael contract ysgrifenedig yn nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau.
 - Gwell hawliau olyn, mae'r rhain yn nodi pwy sydd â hawl i barhau i fyw mewn annedd, er enghraifft, ar ôl i'r tenant presennol farw.
 - Trefniadau mwy hyblyg ar gyfer cyd-ddeiliaid contract, gan ei gwneud yn haws ychwanegu neu ddileu eraill at gontract meddiannaeth.

Sut fydd yn effeithio arnoch chi?

- Byddwch yn cael contract meddiannaeth newydd o fewn 6 mis i 15 Gorffennaf.
- Bydd tenantiaid newydd ar ôl 15 Gorffennaf yn arwyddo'r contract meddiannaeth newydd yn y ffordd arferol, ac yn cael copi o fewn 14 diwrnod.
- Bydd y contract meddiannaeth wedi'i nodi mewn 'datganiad ysgrifenedig'. Bydd y datganiad hwn yn cadarnhau telerau'r contract ac yn cynnwys yr holl delerau cytundebol gofynnol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Sef:
 - Materion allweddol:** Er enghraifft, enwau'r landlord a'r deiliad contract, a chyfeiriad yr eiddo. Rhaid nodi'r rhain ym mhob contract.
 - Telerau Sylfaenol:** Yn ymdrin ag agweddau pwysig y contract, gan gynnwys sut rydym yn cael meddiant a'n rhwymedigaethau o ran atgyweiriadau.
 - Telerau Atodol:** Yn sôn am y materion mwy ymarferol o ddydd i ddydd sy'n berthnasol i'r contract meddiannaeth. Er enghraifft, y gofyniad i roi gwybod i ni os yw'r eiddo yn mynd i gael ei adael yn wag am bedair wythnos neu fwy.
 - Telerau Ychwanegol:** Yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion eraill y cytunwyd arnynt yn benodol, er enghraifft term, sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid anwes.

Fydda i'n dal i fod yn denant o dan y Ddeddf?

Byddwch, mi fyddwch chi'n dal i fod yn denant. Caiff eich cytundeb tenantiaeth ei alw'n gontract meddiannaeth.

Beth fydd yn digwydd i fy nghytundeb tenantiaeth presennol ar ôl 15 Gorffennaf?

Bydd ein cytundebau tenantiaeth presennol yn troi'n 'gontract meddiannaeth', a fydd yn disodli'r cytundeb tenantiaeth. Bydd llawer o'n telerau presennol yn aros yr un fath ond bydd rhai pethau'n





newid e.e. bydd yn rhaid i ni roi mwy o rybudd i chi am godiad rhent.

A fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar fy rhent?

Na fydd, ni fyddant yn effeithio ar eich rhent nac yn costio unrhyw arian i chi.

Beth yw'r gofynion Ffit i Bobl Fyw?

Mae'r newid hwn yn y gyfraith yn helpu i sicrhau ein bod yn cynnal a chadw ein cartrefi er mwyn eu hatal rhag mynd yn anaddas i chi fyw ynddynt. Y prif bwyntiau:

- Lleihau tamprwydd ac anwedd.
- Sicrhau bod a:
 - Larwm mwg wedi'i weirio ar bob llawr mewn cartref.
 - Larwm carbon monocsid sy'n gweithio ym mhob ystafell lle mae offer nwy, olew, tân



neu danwydd solet.

- Sicrhau ein bod yn cynnal archwiliad diogelwch trydanol o leiaf unwaith bob pum mlynedd a bod adroddiad cyflwr trydanol dilys ar waith.

Beth sy'n rhaid i chi ei wneud?

Pan gewch eich Contract Meddiannaeth newydd, bydd angen i chi ei ddarllen, a gwneud yn siŵr eich bod yn deall eich hawliau a'ch cyfrifoldebau.

Cefnogir y newidiadau hyn gan sefydliadau tenantiaid megis TPAS Cymru ac mewn partneriaeth â Shelter Cymru.

I gael mwy o wybodaeth a gweld cwestiynau cyffredin a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, ewch i llyw.cymru/rhent-u-cartrefi-cwestiynau-cyffredin-tenantiaid

Dod i'n hadnabod ni - sbotolau ar un o'n preswylwyr

Gwyndaf "Jock" Davies – Rhuthun

Dywedwch wrthym am eich rôl yn eich cymuned?

Dw i wedi gweithio i'r gymuned 'dw i wedi byw ynddi ers symud yma. Fi yw cadeirydd y grŵp preswylwyr.

Beth ydych chi'n ei fwynhau wrth weithio dros eich cymuned?

Dw i'n mwynhau helpu'r holl breswylwyr boed hynny ar ôl iddynt symud i mewn, neu'n ddyddiol gyda siopa, mynd i apwyntiadau ac yn eu gerddi hefyd. 'Dw i'n mwynhau eu helpu i roi ansawdd bywyd iddyn nhw.

Dw i eisiau pobl i fwynhau cwmni pobl eraill yn ein gweithgareddau, felly



helpu'r bobl hynny gymaint ag y galla' i a threfnu llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau gwahanol.

Allwch chi ddisgrifio diwrnod arferol?

Dw i'n trefnu gweithgareddau yn ein canolfan megis y swper pysgod a sglodion wythnosol a chinio dydd Sul misol. Nid yw hyn ar gyfer ein cymdogion yn unig, ond ar gyfer preswylwyr eraill o gymuned Rhuthun. Rydym ni'n cynnwys plant

o'r ysgol gyfagos mewn rhai gweithgareddau weithiau.

Yn gyffredinol, 'dw i'n trio helpu gydag unrhyw beth y mae unrhyw un angen cymorth ag o, ac os nad ydw i'n gallu helpu, rydw i'n cysylltu â'r Cyngor ar eu rhan os ydynt eisiau i mi wneud hynny.

'Dw i'n mwynhau gweithio ar y gerddi yma ac mae'n braf gallu a chadw ardal y gerddi'n ddaclus.

Beth yw eich hoff ffilm?

Jesus of Nazareth.

Beth yw eich hoff fath o gerddoriaeth?

60au, 70au, 80au ond fy hoff gân ydi "My Heart Will Go On" o ffilm Titanic gan Celine Dion.



Tai Sir Ddinbych

Gwobrau Tenant

29 Medi 2022 yn 1891, Rhyl

Rydym yn falch o gyflwyno ein gwobrau tenantiaid a chymunedol blynyddol ar ôl cael eu canslo oherwydd y pandemig diweddar.

Mae hon yn noson fawreddog, a noddir gan Brenig Construction, yn dathlu cyflawniadau a chyfranogiad ein tenantiaid, y gwaith o fewn eu cymunedau y maent yn byw ynddynt, a phrosiectau ar draws Sir Ddinbych.

Categoriâu gwobrau

- Tenant y flwyddyn
- Tenant ifanc y flwyddyn
- Cymydog da'r flwyddyn
- Preswylwyr tai / grŵp cymunedol y flwyddyn
- Gwasanaeth cwsmer Tai Sir Ddinbych y flwyddyn
- Prosiect cymunedol y flwyddyn
- Arwr cymunedol y flwyddyn
- Gardd y flwyddyn - Tenant
- Gardd y flwyddyn - Ardal gymunedol
- Gardd y flwyddyn - Cymuned
- Arwr cloi

Enwebwch rwan!

Ar-lein:

www.wwww.taisirddinbych.co.uk/gwobrau

E-bost:

tai@sirddinbych.gov.uk

Ffon:

01824 706000



Dyddiad cau: 29 Gorffennaf 2022



Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities



BRENIG
CONSTRUCTION

sir ddinbych
denbighshire
Cyngor
County Council





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diweddariad i'r Rhaglen Gwella Tai

Gwella Ynni - Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Newyddion gwych! Rydym wedi bod yn llwyddiannus, unwaith eto, i gael grant ynni o'r enw'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gan Lywodraeth Cymru. Y llynedd, gwnaethom welliannau i 50 o gartrefi yng Ngallt Melyd.

Bydd grant eleni yn gwella 50 o gartrefi yn Rhydwen Drive a Rhydwen Close, Y Rhyl. Mae'r gwelliannau yn cynnwys:

- Gosod paneli solar i gynhyrchu trydan o'r haul. Rydym yn cysylltu'r paneli hyn i fatri, sy'n storio'r trydan i'w ddefnyddio gyda'r nos.
- Inswleiddiad wal allanol i'r tu allan i'r cartrefi gan ddefnyddio rockwool, deunydd naturiol, carbon isel, sy'n gwrthsefyll tân. Mae hyn yn lleihau drafftiau a'r angen i roi'r gwres ymlaen mor aml yn y gaeaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn edrych i weld a all y gwelliannau hyn helpu tenantiaid i leihau eu defnydd o ynni yn y dyfodol, a sut y gallwn weithio gyda thenantiaid i ddeall eu hanghenion yn well. Yn anffodus, nid yw pob tŷ yn addas ar gyfer paneli solar oherwydd y cyfeiriad mae'r tŷ yn wynebu'r haul. Yn yr achos hwn, byddwn yn cynnal arolwg o'ch cartref i weld pa fesurau ynni eraill a allai helpu.

Yn ogystal â thenantiaid yn gweld gwelliant yn effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, mae'r grant hwn, ar y cyd â Sir Ddinbych yn Gweithio, yn ein helpu i gael pobl leol i mewn i waith adeiladu. Mae ein 'Academi Adeiladu' wedi helpu 10 o bobl, yn yr ardal leol, i gael profiad ar safle'r prosiect. O'r rhain, mae 6 o bobl wedi cael gwaith gyda'n hiscontractwyr.

Fe wnawn ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn y newyddlen nesaf, ac yn rhannu ein cynlluniau ar gyfer ardaloedd eraill yn Sir Ddinbych gyda chi.

Rhaglen Gwelliant Mewnol Safon Ansawdd Tai Cymru

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 dros y 2 flynedd ddiwethaf, rydym, yn ddealladwy, ar ei hôl hi gyda'n rhaglenni gwella ceginau ac ystafelloedd ymolchi arfaethedig. Mae'n dda gennym ddweud y byddwn yn ailddechrau'r prosiect hwn yn ddiweddarach eleni. Byddwn

yn cysylltu â chi i roi mwy o fanylion i chi ynghylch pryd y caiff eich cartref ei uwchraddio, yn nhrefn y dyddiad y cafodd eich eiddo ei wella ddiwethaf. Fel rhan o'r prosiect hwn, byddwn hefyd yn gwneud gwaith uwchraddio gosodiadau trydanol os bydd angen.

Bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau bod eich cartrefi yn parhau i gydymffurfio â SATC, sef safon Llywodraeth Cymru y mae'n rhaid i'n cartrefi ei chyrraedd. Bydd cartrefi sy'n cael eu dewis ar gyfer y rownd gyntaf o waith yn cael llythyrau ar ddiwedd yr haf i drefnu arolwg cyn i'r gwaith gwella ddechrau.

Rhaglen Prawf Trydanol



Rydym wedi ailddechrau'r rhaglen profion trydanol yn ein cartrefi. Mae hwn yn wiriad cyfnodol 5 mlynedd o'r gwifrau sefydlog yn eich cartref. Rydym yn ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y gwifrau'n ddiogel, ac i'n hysbysu o unrhyw waith uwchraddio y gallai fod angen ei wneud. Mae'r archwiliad yn cymryd tua 2-3 awr i'w gwblhau, yn dibynnu ar faint yr eiddo, ac yn cael ei wneud gan ein his-gontractwyr trydanol cymeradwy.

Rydym yn ceisio archwilio ein cartrefi yn nhrefn y dyddiad y cawsant eu hailweirio ddiwethaf. Fel rhan o'r arolygiad, byddwn yn newid yr holl synwryddion mwg a charbon monocsid, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod mewn cyflwr da. Byddwn yn ysgrifennu atoch pan ddaw'n amser i'ch cartref gael ei archwilio, i roi mwy o wybodaeth i chi am y gwiriad. Mae'r archwiliadau hyn yn orfodol, a rhaid eu cwblhau, yn debyg i'ch gwasanaeth nwy blyneddol. Helpwch ni drwy wneud yn siŵr eich bod ar gael ar gyfer yr arolygiadau hyn.

Y Diweddraf ar Ddiogelwch Tân

Yn y newyddlen ddiwethaf, fe wnaethom roi'r wybodaeth ddiweddraf i chi am y Ddeddf Diogelwch Tân newydd. Gyda chymorth Swyddog Diogelwch Tân a Chydymffurfiaeth newydd, byddwn yn deall yn well beth mae hyn yn ei olygu i bawb. Bydd y swyddog newydd yn ein helpu i ddeall y ddeddfwriaeth newydd hon, pa fesurau perthnasol y mae angen i ni eu rhoi ar waith, gan sicrhau bod pob ardal gymunedol yn glir o eitemau ac eiddo, ac ati. Dros y misoedd nesaf, bydd y swyddog yn dechrau ymweld â'ch cartref i weld beth sydd angen i ni ei roi ar waith.

Mae'r ddeddf newydd hefyd yn sôn am ychydig o bethau y bydd angen i chi eu gwneud i helpu i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel. Er enghraifft, os ydych yn byw mewn adeilad, y mae'r gorchymyn Diogelwch Tân yn cyfeirio ato, bloc o fflatiau, neu dŷ lle mae mwy nag un aelwyd yn byw ynddo, bydd angen i chi:

- Gydymffurfio ag unrhyw fesurau diogelwch tân sydd wedi'u rhoi ar waith a pheidio ag ymyrryd â'r rhain. Er enghraifft:
 - Ni ddylech ymyrryd â'r ddyfais hunan-gau na'i thynnu oddi ar y drws tân wrth fynedfa'ch fflat, neu
 - Newid drws tân am un nad yw'n cynnig amddiffyniad tân priodol.
- Rhowch wybod am unrhyw ddiffygion diogelwch tân i'ch swyddog tai neu ffoniwch ein llinell cynnal a chadw ar 01824 706000.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddraf i chi am beth arall y mae'r ddeddf newydd yn ei olygu a sut rydym yn gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gwella diogelwch tân.

Y diweddraf ar Gynnal a Chadw'r Tir



Rydym ni'n falch iawn bod Greenfingers Landscape Ltd wedi ennill contract cynnal a chadw tiroedd yn gynharach eleni. Mae'r contract yma am 3 blynedd, gyda dewis i'w ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall.

Fe greodd parodrwydd y cwmni i ymgysylltu gyda chi a phreswylwyr argraff arnom ni, yn ogystal â'u blaenoriaeth i gefnogi bioamrywiaeth, a chynlluniau i leihau eu hól troed carbon. Maent yn gobeithio recriwtio preswylwyr lleol i'w helpu i gyflawni ein rhaglen cynnal a chadw i'r safon uchaf.

Bydd ein tîm Mannau Gwyrdd yn gweithio'n agos gyda Greenfingers, gan sicrhau bod ein hystadau, cyfadeiladau, mannau agored a mannau chwarae yn cael eu cynnal.

Bydd rhywfaint o'r gwaith cynnal a chadw'n cynnwys:

- Torri'r gwair 18 gwaith y flwyddyn, sy'n golygu ei dorri bron i bob pythefnos trwy gydol y tymor.
- Cynnal y llwyni a gwrychoedd:
 - Trwy gydol y flwyddyn i sicrhau nad ydynt yn tyfu dros ffenestri neu ddrysau a bod llwybrau'n cael eu cadw'n glir.
 - Eu bod yn cael eu palu yn ystod misoedd y gaeaf yr un pryd y byddwn ni'n casglu dail.
- Bydd gwrychoedd yn cael eu torri ar ddiwedd yr haf, pan fydd tymor y nythod adar wedi dod i ben. Bydd rhywfaint o waith tocio angen digwydd yn ystod y flwyddyn, cyn belled nad oes yna berygl i adar sy'n nythu.
- Bydd sbwriel yn cael ei gasglu a biniau'n cael eu gwagio'n rheolaidd yn ein 28 man chwarae.

Rydym ni hefyd yn gobeithio ymestyn ein hardaloedd blodau gwyllt gan leihau angen i dorri gwair, annog cynefin gwell i wenyn a pheillyddion eraill yn ogystal â rhywogaethau eraill o fywyd gwyllt.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud fel rhan o'u cynllun gweithredu ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolgol ar gael yn www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-yr-amgylchedd/newid-hinsawdd-ac-ecolegol/prosiect-dolydd-blodau-gwyllt.aspx



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y diweddaraaf ar gartrefi newydd



Stryd Aquarium, Y Rhyl

Prosiect gwyh arall sydd ar fin dechrau yw adnewyddu wyth o dai teras sy'n edrych dros y parc yn Aquarium Street yn y Rhyl. Rydym wedi prynu'r eiddo hyn gan Lywodraeth Cymru a newydd benodi cwmni o Ddinbych, Adever Construction, i'w troi'n gartrefi teulu pedair ystafell wely.



Llys Llên, Prestatyn (Yr hen llyfrgell)

Y llynedd fe wnaethom rannu diweddariad gyda chi am ein cynlluniau ar gyfer yr hen lyfrgell, Prestatyn. Rydym wedi penodi'r adeiladwyr lleol Wynne Construction o Fodelwyddan i wneud y gwaith. Maen nhw wedi dymchwel yr adeilad er mwyn paratoi ar gyfer adeiladu datblygiad o 14 o fflatiau Cyngor newydd yn ei le. Maen nhw'n gwneud cynnydd da wrth osod y fflatiau newydd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraaf i chi am sut mae pethau'n dod yn eu blaen.



Datblygiadau Passivhaus

Mae ein contractwyr yn gwneud cynnydd mawr gyda'r datblygiadau ynni effeithlon, Passivhaus yn Ffordd Caradoc, Prestatyn a Llwyn Eirin, Dinbych. Bydd y ddau ddatblygiad hyn yn cael eu cwblhau yr haf hwn ac rydym yn edrych ymlaen at allu dangos lluniau a ffilmiau o'r cartrefi newydd i chi unwaith y byddant wedi'u gorffen.

Sir Ddinbych yn Gweithio yn Llwyn Eirin

Mae dyn ifanc di-waith o Ddyffryn Clwyd wedi cael y cyfle i ddatblygu gyrfa yn y byd adeiladu diolch i bartneriaeth rhwng datblygwr blaenllaw, Brenig Construction, Tai Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych.

Mae Kieran Rowlands, 23, wedi treulio tri mis yn gweithio ar ddatblygiad arloesol newydd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn Llwyn Eirin ar Stryd Henllan, Dinbych.

Mae'r cwmni lleol yn adeiladu 22 o gartrefi newydd soffistigedig Passivhaus, y prosiect tai cyngor cyntaf yn y sir ers dros 30 mlynedd.



Cafodd Kieran, o Accar y Forwyn, ei gyflogi gan Brenig fel rhan o gynllun y Cyngor - Dechrau Gweithio Sir Ddinbych yn Gweithio - i ddarparu profiad gwaith i'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor, ac mae'n gwneud argraff dda ar y fîm adeiladu ar y safle.

Meddai Rheolwr y Safle, John Breslin: "Mae wedi pasio pob prawf yn llwyddiannus ac wedi ennill ei Dystysgrif Safle Adeiladu, a fydd yn caniatáu iddo weithio ar unrhyw safle yn y wlad.

"Mae wir wedi dod allan o'i gragen ac wedi profi ei hun yn aelod da a gwerthfawr iawn o'r fîm. Mae'n barod ac awyddus iawn i ddysgu, ac yn fachgen mor neis. Mae'n fachgen lleol ac mae'n wych helpu rhywun fel hyn i ddysgu'r sgiliau a all roi swydd am oes iddo."

Meddai Kieran: "Roeddwn i'n ddi-waith a chefais fy argymell i'r Cyngor. Des i yma am wythnos i ddechrau ac yna ennill cytundeb tri mis.

"Rwyf wedi pasio fy nhystysgrif CSCS a'm profion eraill y tro cyntaf ac rwy'n gobeithio cael rhywfaint o hyfforddiant ar y peiriant turio ac efallai ymestyn fy nghontract yma.

"Rwyf wedi ei fwynhau'n fawr ac wedi dysgu llawer, wedi cyfarfod â llawer o bobl dda ac mae pawb wedi bod yn hynod garedig a chymwynasgar ac yn canolbwyntio cymaint ar wneud y swydd yn dda.

"Mae wedi bod o gymorth mawr i mi gyda fy hyder a phan ddywedais wrth fy nheulu fy mod wedi pasio'r profion, roedden nhw mor hapus bod rhaid i mi ddweud wrthyn nhw am dawelu."

Cefnogwyd y lleoliad hwn a delir amdano yn Brenig Construction gan Tai Sir Ddinbych, Cyngor Sir Ddinbych a'i ariannu gan ei brosiect Dechrau Gweithio Sir Ddinbych yn Gweithio.

Meddai Howard Vaughan, Cyd-Reolwr Gyfarwyddwr Brenig Construction: "Rydyn ni'n ymroddedig iawn i hyfforddi oherwydd pobl fel Kieran a

llawer o rai eraill gyda ni yw asgwrn cefn y diwydiant. Mae hyn mor bwysig wrth i ni geisio tyfu fel cwmni a darparu mwy o gyflogaeth yn y dyfodol.

"Mae hefyd yn hanfodol ein bod ni fel cwmni yn cymryd rhan ar flaen y gad gyda datblygiadau newydd ym myd adeiladu oherwydd cynlluniau fel hyn, yn bendant, yw tai y dyfodol.

"Maent yn defnyddio inswleiddiad soffistigedig a thechnegau a deunyddiau adeiladu blaengar i leihau defnydd carbon a gallant leihau biliau ynni i draean neu lai mewn cartrefi sy'n fodern, yn gyfforddus ac yn bleserus i fyw ynddynt."



Y Diweddaraf ar Ddatblygu Cymunedol



Celfyddydau Cymunedol

Rydym wedi ail-lansio ein sesiynau celf gymunedol mewn partneriaeth â Hamdden Sir Ddinbych eleni. Canolfan Gymunedol Trem Y Foel yw'r gymuned gyntaf i elwa o'r sesiynau. Mae tenantiaid wedi gwneud darnau addurniadol hardd wedi'u gwneud o helyg wedi'u gwehyddu, yn ogystal â chreu celf gwydr hyfryd. Mae rhai o'r sesiynau hyn hefyd wedi cynnwys ysgolion cynradd lleol fel rhan o brosiect rhwng cenedlaethau. Mae mor braf gweld pawb yn ôl allan yn y gymuned mewn lleoliadau wyneb yn wyneb.



Canolfannau Cymunedol

Mae Canolfan Phoenix, y Rhyl, yn dod dechrau adfywio ar ôl Covid-19, diolch i Gina Jones a'r gwirfoddolwyr yn y ganolfan. Maen nhw wedi cynnal sesiynau fel rhan o brosiect Natur er budd lechyd, sydd wedi cynnwys celf a chrefft, grwpiau cerdded a theithiau i Gastell y Waun a Pharc Gwledig Tŷ Mawr. Mae gwirfoddolwyr y ganolfan yn gyffrous iawn am eu cynlluniau yn yr haf. (Gweler llun 3)



Diwrnod Glanhau Cymunedol

Ym mis Mawrth, buom yn gweithio gyda thîm gwastraff y Cyngor a thrigolion lleol i helpu i glirio unrhyw erddi blêr ym Mharc Bruton, y Rhyl. Dechreuodd fel diwrnod gwyntog iawn, diolch i'r storm, ond cafwyd diwrnod cynhyrchiol dros ben, gyda thua 10 tunnell o wastraff wedi ei gasglu a'i symud. Diolch yn fawr iawn i'r holl drigolion a helpodd i lanhau ar y diwrnod hwnnw a gwneud Parc Bruton yn lle i fod yn falch ohono.

Cadw'n Egnïol

Dyma brosiect partneriaeth arall gyda Hamdden Sir Ddinbych sydd wedi dechrau eleni, sy'n annog y gymuned i gadw'n egnïol. Mae'r sesiynau hyn i gyd wedi'u teilwra o amgylch y grŵp ac yn amrywio o ymarferion cadair freichiau, Boccia i deithiau cerdded cymunedol hamddenol.

Cymerwch ran!

Os oes gennych unrhyw syniadau am sut y gallwn wneud gwelliannau yn eich cymuned, cysylltwch â ni.

Rydym yn chwilio am bobl a hoffai gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol, a gyda'n cefnogaeth ni, gwneud newidiadau cadarnhaol yn eu hardal leol.

A oes gennych chi dalent gudd y gallwch ei rhannu gyda'ch cymuned neu a hoffech chi ddweud eich dweud ar rai o'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor?

Os yw hyn yn rhywbeth y mae gennych ddi-ddordeb ynddo, cysylltwch â Sarah Jones ar **(01824) 706873** neu anfonwch e-bost at: **Sarah.Elizabeth.Jones@sirddinbych.gov.uk**

Cwestiynau Cyffredin am Dâl Gwasanaeth



Rydym wedi bod yn cael rhai cwestiynau'n ddiweddar am dâl gwasanaeth, a beth mae'n ei olygu. Dyma ganllaw defnyddiol i helpu i ateb rhai o'ch cwestiynau.

Beth yw Tâl Gwasanaeth?

Fel arfer mae'n rhaid i chi dalu tâl gwasanaeth am y gwasanaethau ychwanegol rydyn ni'n eu darparu i chi, os ydych chi'n defnyddio cyfleusterau a rennir neu gyfleusterau cymunedol, ardaloedd allanol ac ati ar ben eich rhent arferol.

Beth mae'n ei gynnwys?

Rhai enghreifftiau o'r gwasanaethau hyn yw:

- Goleuo ardaloedd cymunedol
- Cyfleusterau golchi dillad a rennir
- Atgyweiriadau i systemau drysau ffrynt a rennir
- Cynnal a chadw'r tir, yn amrywio o dorri gwair i archwilio ac atgyweirio meysydd chwarae
- Gwresogi ardaloedd cymunedol
- Costau diogelwch tân
- Glanhau ardaloedd cymunedol
- Cynnal a chadw, atgyweiriadau a gwelliannau cyffredinol

Sut ydyn ni'n cyfrifo'r tâl gwasanaeth?

Bob blwyddyn, rydym yn cyfrifo'r tâl gwasanaeth drwy edrych ar y costau gwirioneddol ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn y flwyddyn flaenorol. Nid ydym yn gwneud unrhyw elw ein hunain, ac mae'r swm a godir yn sefydlog am y flwyddyn, yn yr un modd â'ch rhent. Rhennir cyfanswm cost y gwasanaethau hyn rhwng y tenantiaid sy'n eu defnyddio ac sydd â mynediad iddynt.

Pam fod fy nhâl gwasanaeth yn wahanol?

Mae gan bob adeilad cymunedol wahanol gyfleusterau ac ardaloedd allanol i'n tenantiaid eu defnyddio.

Sut ydych chi'n sicrhau fy mod yn cael gwerth am arian?

Rydym yn edrych yn rheolaidd ar y costau cysylltiedig a sut rydym yn darparu gwasanaethau. Gall hyn gynnwys cynnal a chadw tiroedd, neu ein cyflenwyr trydan, a gosod goleuadau ynni effeithlon mewn ardaloedd cymunedol i leihau costau rhedeg.

Mae'r holl wasanaethau hyn yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol ar gyfer ein tenantiaid sy'n cael y taliadau hynny.

I gael mwy o wybodaeth am ein taliadau gwasanaeth, ewch i www.taisirddinbych.co.uk/tal-gwasanaeth



Dod i'n hadnabod ni – dyma un o'n staff tai

Vicki Shenton, Rheolwr Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Marchnata

Beth yw eich rôl?

Rwy'n gweithio gyda llawer o swyddogion tai ac ar draws yr awdurdod lleol bob dydd. Prif ran fy swydd yw gwneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu, yn gwrando ac yn clywed yr hyn y mae ein tenantiaid yn ei ddweud, yn ogystal â rheoli ein brand. Rwy'n gofalu am wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Tai Sir Ddinbych, yn ogystal â chynhyrchu ein holl ddeunyddiau marchnata ar gyfer amrywiaeth o brosiectau a digwyddiadau yr ydym yn eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, y prosiectau mawr yr wyf yn darparu gwaith marchnata, cyfathrebu ac ymgysylltu ar eu cyfer yw:

- Rhaglenni datblygu tai - adeiladu tai cymdeithasol newydd yn Sir Ddinbych
- Ein rhaglen gwella ynni, h.y. paneli solar, pypiau gwres awyr, uwchraddio gwresogyddion ac ati
- Gwobrau Tenantiaid ym mis Medi
- Cynhyrchu'r newyddlen hon
- Gwella ein gwefan, sicrhau ei bod yn hygyrch
- Canlyniadau Arolwg STAR
- Strategaeth cyfryngau cymdeithasol

Beth ydi'r peth gorau am eich swydd?

Y bobl! Tenantiaid, y bobl rwy'n gweithio gyda nhw, a'r cymunedau maen nhw'n byw ynddyn nhw yw rhai o'r pethau gorau am fy swydd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fel y rhan fwyaf o'r timau, rydw i wedi bod yn gweithio gartref, ond bu modd i mi glywed a gweld beth mae ein tenantiaid wedi bod yn ei wneud ar-lein. Ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan oedd y lle cyntaf i ni allu cadw mewn cysylltiad â'n tenantiaid. Roedd yn hollbwysig newid y ffordd yr ydym yn gwrando, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu.



Mae cefnogi llais y tenant yn bwysig iawn i mi, a dyma sail popeth rwy'n ei wneud. Yn 2020, deuthum yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr TPAS Cymru. Mae'n bwysig i mi fy mod yn cefnogi'r gwaith o lunio polisiâu a gwasanaethau ledled Cymru sy'n effeithio ar denantiaid, yn ogystal â gwella cyfranogiad tenantiaid.

Disgrifiwch ddiwrnod arferol

Y peth cyntaf rwy'n ei wneud, bob bore, yw mewngofnodi i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a dal i fyny ar unrhyw beth sy'n effeithio ar fywydau ein tenantiaid, gwirio unrhyw negeseuon y gallem fod wedi'u cael dros nos ac unrhyw beth sy'n ymwneud â thai cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, rwy'n treulio'r rhan fwyaf o ddiwrnodau'n paratoi ar gyfer ein tenantiaid, a fydd yn symud i'n cartrefi newydd yn Ninbych yn ddiweddarach eleni. Rwy'n cynllunio ychydig o ddigwyddiadau agored i bobl ddod draw i edrych ar ein cartrefi newydd, cynhyrchu canllawiau defnyddwyr a fideos, ac ati. Rydym hefyd yn lansio ein gwobrau tenantiaid ar gyfer eleni, felly rwy'n gwneud yn siŵr y bydd popeth yn barod ar gyfer y rheini.

Mae pob diwrnod yn wahanol, ond wrth wraidd popeth a wnaf, mae'r penderfyniadau rwy'n eu gwneud ar gyfer ein tenantiaid a'u cymunedau.

Beth yw eich hoff ffilm?

Rwy'n wir ramantus yn y bôn, felly unrhyw beth sy'n ddrama gyfnod rhamantus neu gomedi rhamantus! Mae'r rhestr yn ddiddiwedd ond mae fy ffefrynnau yn cynnwys Pride & Prejudice, The Proposal, Downton Abbey ac ati.

Beth yw eich hoff fath o gerddoriaeth?

Dyma gywilydd, ond rwy'n hoffi cerddoriaeth bop hen ffasiwn o'r 80au a'r 90au! Rwy'n dangos fy oed rŵan!! Rwyf hefyd yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth o sioeau cerdd y west-end.

Costau byw a beth mae'n ei olygu i chi.



Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith niweidiol ar bob un ohonom. Mae pris bwyd a newyddau'n uwch, mae faint mae'n ei gostio i gynhesu ein cartrefi wedi cynyddu (gyda'r cap pris ynni i godi eto eleni), mae tanwydd yn fwy drud, ac nid yw incwm pobl yn ymestyn mor bell ag yr arferai wneud.

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich biliau, yn cael trafferth rheoli dyledion, ddim yn siŵr ydi'ch cartref yn defnyddio ynni'n effeithlon, neu os hoffech chi dawelwch meddwl yn gwybod eich bod yn hawlio popeth y mae gennych hawl iddo, mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yma i helpu.

Gallwn gynnig cyngor a chefnogaeth gyfrinachol, amhleidiol yn rhad ac am ddim.

Gyda sesiwn cynyddu incwm, byddwn yn sicrhau eich bod yn hawlio'r hyn sy'n ddyledus i chi a'ch bod yn derbyn y swm cywir o fudd-dal, byddwn yn helpu i adnabod a rheoli unrhyw ddyledion ac ôl-ddyledion sydd gennych chi, gallwn eich cyfeirio at gynlluniau a phrosiectau mwy (boed hynny ar gyfer bwyleri neu insiwleiddiad newydd drwy NEST, neu helpu â pha bynnag grantiau sydd ar gael), a byddwn yn eich helpu gyda chyngor ymarferol i ddefnyddio ynni'n effeithlon a mesurau bychain.

Os ydych chi'n aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog, mae gennym gynghorwyr ynni arbenigol dynodedig i helpu. Diolch i'n partneriaeth gyda Woody's Lodge, gyda chyllid o'r Cynllun Unioni Ynni, mae'n Prosiect Force for Energy yn gallu cynnig ymweliad â'r cartref - ochr yn ochr â'n cynnig arferol o gyngor, cefnogaeth ac atgyfeirio - er mwyn asesu a ydi'ch cartref yn defnyddio ynni mor effeithlon â phosibl a rhoi mesurau bychain ar waith i helpu tuag at hynny.

Gyda chostau byw yn mynd i gynyddu, mae'n bwysig bod gennych fynediad at yr holl gefnogaeth sydd ei angen arnoch cyn yr argyfwng, felly cysylltwch heddiw yn rhad ac am ddim, i gael cyngor annibynnol, amhleidiol a chyfrinachol.

Ffoniwch 08082 787933

E-bost advice@dcab.co.uk

Gallwch weld cynghorydd yn ein hystafell aros riithiol (dydd Llun - dydd Gwener, 9.30am - 4.30pm)

<https://attenduk.vc/area-1>

Cyflwyno ein Haelod Arweiniol - Tai, Digartrefedd a Diogelwch yn y Gymuned



Fy enw yw Rhys Thomas, ac rwy'n falch o allu cyflwyno fy hun i chi fel Aelod Arweiniol Cabinet dros Dai, Digartrefedd a Diogelwch yn y Gymuned ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.

Rwy'n teimlo'n anrhydedd o gael y swydd gyfrifol hon.

Rwyf wedi treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio yn y maes addysg. Ar ôl hynny roeddwn yn gweithio i ystod o elusennau, ac yn y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi bod yn rhedeg banc bwyd cymuned leol.

Mae'r gred bod gan bob unigolyn a phob teulu'r hawl i fyw mewn tai diogel ac o ansawdd da wedi bod yn bwysig iawn i mi.

Fel Aelod Arweiniol, byddaf yn gwneud yr hyn oll y gallaf i gefnogi'r swyddogion tai sydd yn gweithio'n galed ac wedi ymrwymo'n llawn i weithio yn y gwasanaeth hwn.

Rhys Thomas